# Symud y cymalau ar gyfer osteoarthritis yn y ben-glin heb gywiro'r aliniad

Gorffennaf 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Nid oes tystiolaeth ddigonol er mwyn bod yn sicr ynglŷn â pha mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw. Am y rheswm hwn, dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y dylai'r driniaeth hon gael ei chyflawni.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gall eich gweithiwr iechyd proffesiynol gynnig y driniaeth hon i chi. Cesglir manylion am eich triniaeth.

## Y cyflwr

Cyflwr sy'n effeithio ar gymalau'r ben-glin yw osteoarthritis. Fe'i gwelir fwyaf mewn pobl dros 45 oed, ond gall effeithio ar bobl iau hefyd. Mae symptomau osteoarthritis yn y ben-glin yn cynnwys poen, anystwythder, chwyddo ac anawsterau wrth gerdded.

Mae sawl math o driniaeth a dyfais ar gael i bobl ag osteoarthritis yn y ben-glin, a all eich helpu i reoli eich cyflwr. Mae'r rhain yn cynnwys rhyw fath o gymhorthydd cymalau, cyfarpar i'ch helpu i gerdded (megis ffon gerdded), ffisiotherapi a llawdriniaeth.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio triniaeth i symud y cymalau ar gyfer osteoarthritis yn y ben-glin fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) a gwybodaeth NICE i'r cyhoedd am osteoarthritis fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Y driniaeth

Mae symud y cymalau heb gywiro'r aliniad yn dechneg y gellir ei defnyddio i drin osteoarthritis yn y ben-glin. Cymal y ben-glin yw'r man lle mae asgwrn y forddwyd (ffemwr) ac asgwrn y grimog (tibia) yn cyfarfod. Mae pen y ddau asgwrn wedi'u gorchuddio â haen o gartilag, sy'n gweithredu fel siocleddfwr

yn y cymal. Os bydd unigolyn yn dioddef o osteoarthritis, daw'r cartilag yn arw ac yn denau gan ddatgelu pennau'r esgyrn.

Yn ystod y driniaeth hon, gosodir ffrâm fetel o amgylch y ben-glin tra bydd y claf o dan anesthetig cyffredinol neu anesthetig asgwrn cefn. Atodir y ffrâm i binnau a gaiff eu drilio drwy'r tibia a'r ffemwr. Caiff y cymal ei dynnu ar wahân ychydig gan ddefnyddio'r ffrâm, a fydd yn aros yn ei le am gyfnod o rhwng dau neu dri mis fel arfer. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd yr unigolyn yn gallu cerdded.

Y nod yw tynnu'r pwysau oddi ar y cymal ac annog y cartilag i drwsio ei hun.

## Manteision a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynwyd nad oes digon o dystiolaeth i fod yn sicr ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Roedd y tair astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 87 o gleifion.

Yn gyffredinol, dangoswyd y manteision canlynol:

- gwellodd poen ac anystwythder yn y cymal, sawl mis neu flynyddoedd ar ôl cynnal y driniaeth
- ffurfiodd cartilag newydd yn y cymal, o fewn dwy flynedd ar ôl cynnal y driniaeth
- roedd y rhan fwyaf o bobl yn gallu cerdded am gyfnod hwy ac yn cael llai o anawsterau wrth ddringo grisiau, ychydig flynyddoedd ar ôl iddynt gael y driniaeth.

Dangosodd yr astudiaethau fod risgiau symud cymalau yn cynnwys y canlynol:

- heintiau yn y mannau lle y gosodwyd y pinnau yn y goes, a gafodd eu trin â gwrthfiotigau
- methu â phlygu'r ben-glin yn normal ar ôl y driniaeth. Roedd hyn wedi gwella o fewn blwyddyn ar ôl y driniaeth

- cafodd rhai cleifion thrombosis gwythien-ddofn (clot gwaed mewn gwythïen) neu emboledd pwlmonaidd (clot gwaed yn yr ysgyfaint) ar ôl y driniaeth, gan alw am driniaeth bellach arno.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllawiau ymyriadau NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-1408-1